Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MEHEFIN 1999 - MAI 2003

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar eu cynnydd wrth gyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor ers ei gyfarfod cyntaf ym Mehefin 1999 tan Mai 2003.

AELODAETH

2. Ieuan Wyn Jones oedd cadeirydd y Pwyllgor pan gyfarfu am y tro cyntaf ym Mehefin 1999. Mick Bates, Glyn Davies, Janet Davies, Richard Edwards, Christine Gwyther (Gweinidog), Carwyn Jones, Karen Sinclair a Rhodri Glyn Thomas oedd yr aelodau eraill.

3. Ers hynny, mae aelodaeth y Pwyllgor wedi newid yn sylweddol. Gweler Atodiad 1.

4. Glyn Davies yw cadeirydd y Pwyllgor ar hyn o bryd. Christine Chapman, Cynog Dafis, Jocelyn Davies, Ron Davies, Delyth Evans, Mike German (Gweinidog), John Griffiths, Peter Rogers a Rhodri Glyn Thomas yw'r aelodau eraill.

CYLCH GWAITH

5. Mae cylch gwaith presennol y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio amaethyddiaeth a datblygu gwledig Mike German, y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor. Mae'n cynnwys pob agwedd ar amaethyddiaeth a physgodfeydd, datblygu a hyrwyddo cynhyrchu bwyd, coedwigaeth a datblygu'r economi wledig.

6. Yn wreiddiol, roedd cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys cefn gwlad a chadwraeth, y Parciau Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Roedd hefyd yn bennaf gyfrifol am hyrwyddo a chadw golwg ar gynllun datblygu cynaliadwy y Cynulliad. Yn 2000, trosglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn i bwyllgor newydd sef Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

7. Yn Atodiad 2 ceir manylion y cyfarfodydd a gynhaliwyd.

8. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9.7. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn sôn am agweddau penodol ar waith y Pwyllgor o dan y teitlau hyn

EI WAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA
Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

9. Ers 1999, cyfrannodd y Pwyllgor at ddatblgu polisi trwy gynnal ymchwiliadau a chyhoeddi adroddiadau mewn sawl maes: y gwaharddiad ar werthu cig eidion ar yr asgwrn; arallgyfeirio'r economi wledig; TGCh yng nghefn gwlad Cymru; dyfodol ffermio organig; dyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol, ac effaith gwahardd hela â chwn.

Adolygiadau Polisi gan y Pwyllgor

Cig eidion ar yr asgwrn
10. Ym mis Mai 1999, penderfynwyd mewn cyfarfod llawn i alw ar y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn [1]. Wedi hynny, fe wnaeth y Pwyllgor wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig a chynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth cyhoeddus. Ym mis Gorffennaf 1999, cyhoeddwyd adroddiad interim ar asesiad y Pwyllgor o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn codi'r gwaharddiad. Yn dilyn hyn, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth bellach i ddatganiadau gan Brif Swyddogion Meddygol o Gymru, yr Alban a Lloegr. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 1999, a oedd yn argymell codi'r gwaharddiad ar werthu cig eidion ar yr asgwrn mewn safleoedd manwerthu a pharhau â'r gwaharddiad ar ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu. Ymchwiliad y Pwyllgor oedd y cyntaf i'w gynnal gan y Cynulliad, ac roedd yn esiampl dda i'r Pwyllgorau eraill o ymchwiliad manwl ac agored. Roedd ei fanylder yn golygu bod Aelodau mewn sefyllfa well i fynegi barn ar y mater ac yn sicrhau bod y drafodaeth gyhoeddus yn fwy buddiol.

Arallgyfeirio'r economi wledig
11. Ym mis Medi 1999, aeth y Pwyllgor ati i ddechrau ymchwilio i bolisïau ar hyrwyddo arallgyfeirio economaidd yn nghefn gwlad Cymru[2]. Bu'r Pwyllgor yn ymgynghori'n eang a chynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus hefyd. Bu 130 o sefydliadau ac unigolion â diddordeb yn yr economi wledig yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny. O ganlyniad, nodwyd themâu allweddol a gwahoddwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar arnynt[3]. Bu'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth o fis Mai 2000 tan fis Mawrth 2001. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2001.

12. Roedd yr adroddiad yn rhestru dros 60 o argymhellion ar gyfer ehangu a chryfhau seiliau'r economi wledig yng Nghymru. Ym mis Mai 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb ysgrifenedig y Cabinet i'r argymhellion.

[1] Ar 25 Mai 1999, penderfynodd y Cynulliad ei fod: 'yn cefnogi codi'r gwaharddiad cyfredol ar gig eidion ar yr asgwrn cyn gynted ag y bo modd ac, fel y gall gyrraedd penderfyniad ystyriol, gofynnaf i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gynnal ymchwiliad brys i'r mater, gan ymgynghori fel y bo'n briodol â Phwyllgorau Pwnc eraill ac, fel rhan o'i gylch gorchwyl, i roi adroddiad gydag argymhellion i Aelodau'r Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol'.
[2] Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad: *'Adolygu'r polisïau a'r rhaglenni a fyddai'n cefnogi mwy o amrywiaeth economaidd yn ardaloedd gwledig Cymru. Ystyried cynigion i greu: amrywiaeth ehangach o weithgareddau economaidd; dewis ehangach o gyfleoedd economaidd, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc; ffermydd teuluol mwy cynaliadwy.'*
[3] Cynllunio defnydd tir; addysg a hyfforddiant; gwasanaethau cefnogi a chynghori busnes; cael gafael ar gyfalaf; marchnata a chynyddu'r gwerth ychwanegol a datblygu cymunedau.

Gwahoddwyd Awdurdod Datblygu Cymru, y brif asiantaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd, i annerch y Pwyllgor ym mis Mawrth 2003 a thrafod ei ymateb i'r argymhellion.

TGCh yng nghefn gwlad Cymru

13. Ym mis Gorffennaf 2001, aeth y Pwyllgor ati i ymchwilio i'r dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ddarperir yng nghefn gwlad Cymru. Canolbwyntiodd yn arbennig ar y camau sydd angen eu cymryd i gynyddu'r galw am TGCh a gwella'r cyflenwad mewn ardaloedd gwledig[4]. Cafwyd cyflwyniadau ysgrifenedig a chyflwyniadau llafar gan amrywiaeth eang o garfannau perthnasol. Yn ogystal bu Uned Gwerthuso Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnal adolygiad o lenyddiaeth ar 'beth sy'n gweithio' yng nghynlluniau TGCh mewn ardaloedd gwledig. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Mai 2002. Roedd yn cynnwys 12 argymhelliad a fyddai, gyda'i gilydd ac ochr yn ochr â'r mesurau presennol, yn helpu i ymdrin â nifer o'r materion TGCh sy'n wynebu cefn gwlad Cymru.

Dyfodol ffermio organig yng Nghymru

14. Ym mis Ebrill 2002, cynhaliwyd ymchwiliad gan y Pwyllgor i ddyfodol ffermio organig yng Nghymru[5]. Bu'r Pwyllgor yn ymgynghori'n eang a chafodd lawer o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Er mwyn dysgu mwy am y sefyllfa, aeth aelodau'r Pwyllgor i ymweld â fferm ymchwil y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) yn Nhrawscoed, a Rachel a Gareth Rowlands, sylfaenwyr *Rachel's Dairy*, y llaethdy organig cyntaf ym Mhrydain i gael ei ardystio. Cafwyd cyngor ac arweiniad hefyd oddi wrth Ganolfan Organig Cymru ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2002. Roedd yn cynnwys cyfres o argymhellion a oedd yn dibynnu ar barhau i ddarparu arian cyhoeddus i'r sector i'w helpu i ddatblygu yn ôl y farchnad. Cafodd prif argymhelliad y Pwyllgor sef cyflwyno taliadau cynnal parhaus ar gyfer ffermwyr organig, ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mis Mawrth 2003, cafwyd ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i holl argymhellion y Pwyllgor.

Dyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol

15. Ym mis Gorffennaf 2002, yn dilyn ei waith ar ffermio organig a oedd yn argymell integreiddio cefnogaeth i ffermwyr organig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol[6], a phwyslais cynyddol y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar yr amgylchedd, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i ddyfodol cynlluniau

[4] Gan gyfeirio at astudiaethau achos a phrofiadau penodol yng Nghymru ac mewn mannau eraill, nodi'r camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i sicrhau bod economi a chymunedau cefn gwlad Cymru yn cael y budd mwyaf o ddatblygiadau'r Oes Wybodaeth. Bydd yr astudiaeth yn rhoi sylw arbennig i'r math o wasanaethau TGCh sydd eu hangen yng nghefn gwlad Cymru a'r camau sydd angen eu cymryd i ysgogi diddordeb a chyflenwad.

[5] Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad: *'Asesu'r rhagolygon ar gyfer ffermio organig yn y dyfodol yng Nghymru, asesu i ba raddau y mae targedau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn briodol ac yn gyraeddadwy, a'r goblygiadau o ran polisïau a dyrannu adnoddau o fewn y gyllideb ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig'.*

[6] Mae adroddiad y Pwyllgor *Dyfodol Ffermio Organig yng Nghymru* yn argymell *'y dylai taliadau cynnal i ffermwyr organig ac integreiddio cefnogaeth i ffermwyr organig o fewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, gael eu hystyried fel blaenoriaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi ystyried cyllido a defnyddio adnoddau sy'n tarddu o fodiwleiddio.*

amaeth-amgylcheddol yng Nghymru[7]. Roedd adroddiad y Pwyllgor, y cytunwyd arno ym mis Mawrth, yn nodi set o egwyddorion y mae'n gobeithio y bydd cynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd yng Nghymru yn seiliedig arnynt.

Hela â chwn

16. Ym mis Rhagfyr 2000, penderfynwyd mewn cyfarfod llawn i alw ar y Pwyllgor i ystyried effaith benodol gwahardd hela â chwn ar Gymru[8]. Fe wnaeth y Pwyllgor wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig ar y mater, a thynnu sylw at unrhyw ffactorau a oedd yn berthnasol i Gymru. Er na ddaeth y Mesur Hela gwreiddiol yn ddeddf cyn Etholiad Cyffredinol 2001, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r ymatebion a dderbynniwyd ddylanwadu ar y broses o gynllunio ac archwilio unrhyw ddeddfwriaeth yn y Senedd yn y dyfodol. Ym mis Mehefin 2002, cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad ffeithiol yn disgrifio sut eir ati i hela yng Nghymru a ffactorau perthnasol[9].

Cymorthdaliadau'r PAC

17. Mewn ymateb i bryderon ynglych oedi gyda thalu cymorthdaliadau'r PAC, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr yn rhan gyntaf 2003.

Cydweithio

18. Yn ogystal â'r ymchwiliadau uchod, cyfrannodd y Pwyllgor at y prif ddatblygiadau polisi a roddwyd ar waith gan y Gweinidog.

Ffermio i'r Dyfodol

19. Ym mis Gorffennaf 1999, lansiwyd y ddogfen ymgynghori *Ffermio i'r Dyfodol* gan y Pwyllgor a'r Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig bryd hynny. Roedd cyd-lansio dogfen mor arwyddocaol, a oedd yn gofyn cwestiynau sylfaenol am ddyfodol amaethyddiaeth, yn gosod cynsail ar gyfer cydweithio trawsbleidiol yn y Cynulliad newydd. Wedi hynny, cyhoeddodd y Gweinidog strategaeth o'r un enw ym mis Tachwedd 2001. Roedd yn disgrifio gweledigaeth ar gyfer dyfodol tymor hir y byd amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn craffu'n rheolaidd ar y gwaith o roi ar waith y 50 o bwyntiau gweithredu a restrwyd yn y ddogfen.

Partneriaeth Bwyd-Amaeth

20. Mae'r Pwyllgor wedi helpu i ddatblygu diwydiant sy'n cael ei arwain fwy gan y farchnad, trwy fonitro gwaith y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth. Trwy gynlluniau gweithredu sy'n ymateb i alw'r farchnad, mae'r Bartneriaeth yn annog cysylltiadau mwy effeithiol rhwng y cynhyrchwyr a'r farchnad ac yn ychwanegu gwerth at y prif gynhyrchion. Bu'r Pwyllgor yn monitro hynt y

[7] Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad: *'Rhoi ystyriaeth i effeithiolrwydd Tir Gofal o ran cyflawni ei amcanion a gwneud argymhellion ar gyfer y ffurf a fydd i system integredig cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol yng Nghymru ac ar gyfer ariannu system o'r fath'.*

[8] Ar 19 Rhagfyr 2000, penderfynodd y Cynulliad: *'bod y Mesur Hela yn arbennig o berthnasol i Gymru, ac yn cyfeirio'r mesur at y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig er mwyn ystyried ei oblygiadau i Gymru, ac yn gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig adrodd ar y modd y cymhwysir y ddeddfwriaeth arfaethedig yng Nghymru'.*

[9] Hela â Chwn yng Nghymru, Mehefin 2002

cynlluniau hyn trwy gynnal cyfarfodydd bob chwarter â Chadeiryddion y grwpiau strategol perthnasol.

Y Cynllun Datblygu Gwledig

21. Cyfrannodd y Pwyllgor yn sylweddol at ddatblygu'r cynllun hwn trwy gynnal trafodaeth reolaidd cyn i'r Comisiwn Ewropeaidd ei gymeradwyo ym mis Hydref 2000. Mae'r Cynllun yn rhoi fframwaith ar gyfer datblygu amaethyddiaeth a'r economi wledig yng Nghymru. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi monitro'r gwaith o weithredu'r mesurau yn y Cynllun a'u heffeithiolrwydd[10].

Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

22. Adolygiad canol tymor o'r PAC yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n llywio dyfodol polisi amaethyddol yn Ewrop. Bu'r Pwyllgor yn trafod yn rheolaidd y cynigion sy'n deillio o'r adolygiad, a cheisiodd ddylanwadu ar safbwynt y Gweinidog wrth drafod â'i gyfoedion yn y DU ac Ewrop.

<u>Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))</u>

23. Mae'r cydbwysedd rhwng datblygu polisi a chraffu wedi newid ers i'r Pwyllgor ddechrau ar ei waith yn 1999. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor yn treulio mwy o amser yn craffu ar waith y Gweinidog a deddfwriaeth.

Adroddiad y Gweinidog

24. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog trwy ei adroddiad rheolaidd. Eitem gymharol fer bob yn ail gyfarfod oedd hon yn wreiddiol. Bellach, treulir tua awr ym mhob cyfarfod yn craffu ar adroddiad y Gweinidog. Gyda chytundeb y Gweinidog, cyflwynwyd system sy'n rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn iddo gynnwys materion penodol yn ei adroddiad. Roedd hyn yn galluogi'r Aelodau i graffu'n rheolaidd ar faterion sy'n bwysig yn y tymor byr a'r tymor hir.

Clwy'r Traed a'r Genau

25. Y dylanwad mwyaf ar waith y Pwyllgor yn 2001 oedd clwy'r traed a'r genau. Taflodd gysgod dros waith y Pwyllgor o ddechrau'r flwyddyn tan yr haf. Cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod toriadau'r Pasg a'r haf, a phan oedd y clwy ar ei anterth dyma oedd y prif destun trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. O ganlyniad, daeth y Pwyllgor yn fforwm cyhoeddus pwysig a oedd yn craffu ar sut yr ymdriniwyd â'r clwy yng Nghymru. Roedd hefyd yn gyfrwng i rannu gwybodaeth ynghylch y datblygiadau diweddaraf. Pan lwyddwyd i reoli'r clwy, penderfynodd y Pwyllgor graffu'n fanwl ar y camau a gymerwyd gan Weinidogion y Cynulliad a'r swyddogion yn ystod yr argyfwng. Neilltuwyd dau gyfarfod ar gyfer y gwaith hwn, ac yn ogystal â chraffu ar y camau a gymerwyd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, fe wnaeth y Pwyllgor wahodd Gweinidogion eraill perthnasol i roi tystiolaeth. O ganlyniad, adroddodd y Pwyllgor ar y dulliau o reoli'r clwy ac agweddau amgylcheddol ac economaidd ar yr argyfwng yng Nghymru yn gynt o lawer nag unrhyw gorff neu ymchwiliad tebyg yn Lloegr[11].

[10] ee. Cyswllt Ffermio, Tir Mynydd, Tir Gofal a'r cymorth sydd ar gael i'r sector organig.

[11] Adroddiad archwiliad y Pwyllgor i'r modd yr aed i'r afael â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru: Ebrill 2002

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

26. Ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb am Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Pharciau Cenedlaethol Cymru i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ym mis Mawrth 2000, nid yw cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys unrhyw gyrff gyhoeddus mawr bellach. Serch hynny, mae'n dal i gymryd diddordeb yn eu gwaith a chyrff cyhoeddus eraill sy'n berthnasol i'w waith, yn enwedig Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru. Caiff y cyrff hyn eu gwahodd yn rheolaidd i gyfrannu at ymchwiliadau'r Pwyllgor ac adrodd ar y gwaith o weithredu'r argymhellion sy'n deillio ohonynt.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

27. Mae'r Pwyllgor wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu llawer o ddeddfwriaeth trwy gymryd rhan yn gynnar yn y broses o lunio polisïau. Hefyd, fe fu'n craffu ar offerynnau statudol penodol. Caiff restr o'r offerynnau sydd ar y gweill yn rheolaidd, ac o'r rhestr honno mae'n dewis y rhai y bydd yn eu hystyried yn fwy manwl. Ym mis Mai 2002, cytunodd ar brotocol anffurfiol ar gyfer ymdrin ag offerynnau statudol yn ei gyfarfodydd. Ers hynny, mae wedi dewis 17 offeryn statudol i'w hystyried yn fanwl.

28. Yn Atodiad 3 ceir manylion yr offerynnau statudol a ystyriwyd gan y Pwyllgor.

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

29. Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at y broses o ddyrannu'r gyllideb trwy nodi blaenoriaethau ar gyfer gwariant.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8 (iii))

30. Yn 2000, bu'r Pwyllgor yn ystyried 8 cwyn a wnaed i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac a gyfeiriwyd ato o dan Reol Sefydlog 21. Am fod y Pwyllgor wedi treulio llawer iawn o amser yn eu hystyried penderfynodd ym mis Rhagfyr na fyddai, o hyn ymlaen, ond yn trafod cwynion os oedd aelodau yn rhoi gwybod o flaen llaw bod ganddynt fater i'w godi. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at y Pwyllgor ers hynny.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

31. Ers ei sefydlu, mae'r rhai a enwebwyd gan y Pwyllgor i ystyried penodiadau cyhoeddus wedi cymryd rhan mewn sawl proses benodi.[12]

Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (v))

32. Ym mis Mai 1999, penderfynodd y Cynulliad y dylai'r Pwyllgor ymchwilio i'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn (Gweler paragraff 10). Ym mis Rhagfyr 2000, mewn cyfarfod llawn, cyfeiriwyd y Mesur Hela i'r Pwyllgor er mwyn ystyried ei oblygiadau i Gymru (Gweler paragraff 16).

[12] 2000-2001 - Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, Food from Britain ac Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr a; 2001-2002 - Apelau gerbon Panel ar gyfer ffermwyr, Food from Britain, Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr a Phwyllgorau Pysgod Môr.

Blaenraglen

33. Ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003, bydd nifer y pwyllgorau pwnc a'u portffolios yn dibynnu ar sut y bydd y Prif Weinidog yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau'r Cabinet. Hwy fydd yn pennu rhaglenni gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgorau newydd.

Atodiad 1

Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Newidiadau yn yr aelodaeth

Enw	Plaid wleidyddol	Dyddiad ymuno	Dyddiad gadael
Mick Bates	Democrat Rhyddfrydol	25 Mai 1999	18 Mehefin 2002
Christine Chapman	Llafur	2 Gorffennaf 2002	-
Cynog Dafis	Plaid Cymru	21 Mawrth 2002	-
Janet Davies	Plaid Cymru	25 Mai 1999	10 Hydref 2000
Jocelyn Davies	Plaid Cymru	9 Tachwedd 2000	-
Glyn Davies	Y Ceidwadwyr	25 Mai 1999 9 Tachwedd 2000	29 Mawrth 2000 -
Ron Davies	Llafur	27 Tachwedd 2001	-
Delyth Evans	Llafur	10 Mai 2000	-
Michael German	Democrat Rhyddfrydol	18 Mehefin 2002	-
John Griffiths	Llafur	9 Tachwedd 2000	-
Christine Gwyther	Llafur	25 Mai 1999	24 Gorffennaf 2000
Carwyn Jones	Llafur	25 Mai 1999	18 Mehefin 2002
Elin Jones	Plaid Cymru	14 Mawrth 2000	21 Mawrth 2002
Ieuan Wyn Jones	Plaid Cymru	25 Mai 1999	14 Mawrth 2000
Huw Lewis	Llafur	9 Tachwedd 2000	27 Tachwedd 2001
Alun Michael	Llafur	29 Mawrth 2000	9 Mai 2001
Peter Rogers	Y Ceidwadwyr	23 Mehefin 1999	-
Janet Ryder	Plaid Cymru	10 Hydref 2000	21 Mawrth 2002
Karen Sinclair	Llafur	25 Mai 1999	9 Tachwedd 2000
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru	25 Mai 1999 21 Mawrth 2002	9 Tachwedd 2000 -

Atodiad 2

Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Cyfarfodydd y Pwyllgor

Blwyddyn	Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd	Mewnol	Allanol
1999	17[a]	18	-
2000	18	18	-
2001	18[b]	18	-
2002	17	16	1[c]
2003	7[d]		

(a) Yn ogystal, cynhaliwyd tair sesiwn tystiolaeth anffurfiol yng Nghaerfyrddin, Llandudno a Llandrindod er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad y Pwyllgor ar arallgyfeirio.

(b) Gan gynnwys un cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

(c) Ar safle Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

(d) hyd at Ebrill 2003

Atodiad 3

Offerynnau Statudol a ystyriwyd gan y Pwyllgor

Fe'u cyfeiriwyd yn ffurfiol i'r Pwyllgor gan y Dirprwy Lywydd o dan Reol Sefydlog 22.6.

Cyfeiriwyd yr offerynnau statudol canlynol yn ffurfiol i'r Pwyllgor a chawsant eu hystyried yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2001:

– *Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) (Cymru) 2001;*
– *Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) (Cymru) 2001;*
– *Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001;*
– *Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Diwygio) (Cymru) 2001;*
– *Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru) 2001;*
– *Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwygio) (Cymru) 2001;*

Argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Rheoliadau drafft heb eu diwygio.

Offerynnau Statudol eraill a ystyriwyd gan y Pwyllgor

Yn 2002:

– *Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002;*
– *Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002;*
– *Gorchymyn Gwahardd Pysgota gyda Threillwydi Cyfansawdd 2002;*
– *Gorchymyn Crancod Bwytadwy Rhy Fach (Cymru) 2002;*
– *Rheoliadau Cynnyrch Organig;*
– *Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002;*
– *Rheoliadau Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig (Rhyddhau Bwriadol) (Cymru) 2002.*

Argymhellodd y Pwyllgor newidiadau amrywiol i'r *Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002*. Argymhellwyd y dylid cymeradwyo'r offerynnau statudol eraill heb eu diwygio.

Erbyn Ebrill 2003, roedd y Pwyllgor wedi ystyried:

– *Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) 2003;*
– *Rheoliadau Cynllun Gweithredu Parthau Perygl Nitradau (Cymru) 2003;*
– *Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2003;*
– *Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru) 2003;*
– *Gorchymyn Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003;*
– *Gorchymyn Diogelu Anifeiliaid (Anaesthetig) (Diwygio) (Cymru) 2003;*
– *Côd Lles Moch.*
– *Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio);*
– *Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau);*

Bydd yr offerynnau statudol canlynol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn y dyfodol, a'u cynnwys yn y rhaglen waith a awgrymir i'r pwyllgor olynol.

– *Adolygiad o Les Anifeiliaid sy'n cael eu symud;*
– *Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Difa).*